

# YSGOL BRYNREFAIL

## Polisi Iaith Yr Ysgol



### DATGANIAD CYFFREDINOL

Credwn ei bod yn ddyletswydd ar yr ysgol hon i:

- ddiogelu'r ethos Gymreig sy'n gynhenid i'r ardal a hyrwyddo'n fwriadus y dimensiwn Cymreig yn y cwricwlwm
- ddatblygu a chymhwyso sgiliau iaith ein disgyblion fel eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn manteisio i'r eithaf ar:
  - holl agweddau cwricwlwm a chymdeithasol yr ysgol
  - weithgareddau cymunedol, boed leol, genedlaethol neu ryngwladol
  - gyfleoedd addysg uwch a byd gwaith

### NOD

Y nod yw sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae hyn yn cynnwys y tair sgil sylfaenol – Llafar, Darllen, Ysgrifennu – yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### IAITH CYFATHREBU

Adlewyrchir polisi ddwyieithog yr Awdurdod yng ngweinyddiad yr ysgol yn unol â natur ieithyddol y dalgylch, ond y Gymraeg yw prif iaith y cyfathrebu:

- yng ngweinyddiad mewnol yr ysgol o ddydd i ddydd
- fel iaith achlysurol a chymdeithasol y tu allan i sesiynau addysgu
- mewn gwasanaethau boreol a chynulladau torfol

### AGWEDDAU CWRICWLAIDD

#### Y GYMRAEG A'R SAESNEG FEL PYNCIAU

Disgwylir i bob disgybl astudio Cymraeg a Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11 a sefyll yr arholiadau priodol ar derfyn y cyrsiau. Yn unol â pholisi'r Awdurdod bydd y Cymry cynhenid a'r dysgwyr a gyrhaeddodd Lefel 3 neu uwch yn nhair sgil y Cwricwlwm Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn dilyn cyrsiau Cymraeg fel mamiaith. Hwyrddfydiaid a dysgwyr na chyrrhaeddodd Lefel 3 mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 fydd yn dilyn cyrsiau Cymraeg fel ail iaith.

#### CA3 – CYFRWNG IAITH

- Anelir at ddilyniant ieithyddol naturiol o Gyfnod Allweddol 2 yn ogystal â chyflwyno elfennau yn y ddwy iaith i bob plentyn ym mhob pwnc.
- Anelir at sefyllfa lle y gall pob disgybl drafod y gwahanol bynciau yn y ddwy iaith a hynny yn ei dro yn atgyfnerthu dealltwriaeth y plentyn o'r pynciau.
- Paratoir deunyddiau yn y ddwy iaith ym mhob pwnc.
- Sicrheir bod modd i ddisgyblion sefyll profion ac arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl natur ieithyddol yr addysgu.
- Ar draws holl gwricwlwm yr ysgol gwneir darpariaeth ar bedair lefel a bennwyd gan yr Awdurdod.

# YSGOL BRYNREFAIL

## Polisi Iaith Yr Ysgol



Carfan A	- disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg	} 70%+ Cymraeg 30%- Saesneg
Carfan B	- disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol yn y Gymraeg ond angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg	
Carfan C1	- disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond ag angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg	} 50% Cymraeg 50% Saesneg
Carfan C2	- disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond heb y sgiliau oed-berthnasol yn y Gymraeg	} 30% Cymraeg 70% Saesneg
Carfan CH	- disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol isel yn y ddwy iaith. Rhoddir hawl i bennaeth yr ysgol mewn ymgynghoriad â'r AALI, roi ystyriaeth unigol i bob achos	

- Gwneir darpariaeth ar wahân ar gyfer hwyrddyfodiaid.

### **CA4 – CYFRWNG IAITH**

Yn ystod Bl.10 ac 11:

- Bydd o leiaf 30% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion carfanau A, B, C1
- Bydd o leiaf 30% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Saesneg i ddisgyblion carfanau A, B, C1 a C2
- Bydd 40% ychwanegol yn ddewisol o ran cyfrwng

### **Y CHWECHED DOSBARTH – CYFRWNG IAITH**

Bydd cyfrwng yr addysgu yn adlewyrchu'r addysgu blaenorol cyn belled ag y bo'r adnoddau yn caniatáu hynny.

- Sicrheir bod modd i ddisgyblion sefyll profion ac arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl natur ieithyddol yr addysgu.

### **STAFF**

- I gyflawni'r Polisi Iaith anelir at sefyllfa lle mae'r holl athrawon yr ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Disgwylir i holl staff yr ysgol allu cyfathrebu yn y ddwy iaith.

### **MONITRO'R POLISI**

Bydd gweithrediad y polisi iaith yn cael ei fonitro gan y Cyd-gysylltydd Iaith a'r Panel Trawsgwricwlaidd Iaith a Llythrennedd.

# YSGOL BRYNREFAIL

## Polisi Iaith Yr Ysgol



### POLISIÂU IAITH ADRANNOL / CYFADRANNOL

Bydd y rhain yn cynnwys:

#### 1. CYFRWNG IAITH

O dan y penawdau CA3, CA4, Y Chweched Dosbarth, bydd angen nodi

- Y dulliau a ddefnyddir i hyrwyddo dwyieithrwydd, e.e. terminoleg pwnc, deunyddiau cyfochrog Cymraeg a Saesneg.
- Datganiadau o ba unedau neu dasgau a wneir yn y Gymraeg, yn y Saesneg neu yn ddwyieithog.
- Sut y pennir y cyfrwng addysgu (dilyn Polisi Iaith yr Ysgol).

#### 2. CANLLAWIAU AR WAITH YN Y TRI THARGED CYRHAEDDIAD YN Y DDWY IAITH

##### a) Llafar (a gwranddo)

- Nod ac amcan
- Trefn Weithredol yr Adran:
  - Tasgau, e.e. mynegi barn, cyfnewid gwybodaeth, holi ac ateb
  - Sgiliau, e.e. perswadio, trawsieithu, chwarae rôl, dadlau, cyflwyno gwybodaeth

##### b) Darllen

- Nod ac Amcan
- Trefn Weithredol yr Adran:
  - Adnoddau, e.e. llyfrau, cyfeirlyfrau, poster, lluniau, graffiau,
  - Tasgau, e.e. cywain gwybodaeth, darllen a deall.
  - Sgiliau, e.e. cip ddarllen, bras ddarllen, trawsieithu.

##### c) Ysgrifennu

- Nod ac Amcan
- Trefn Weithredol yr Adran:
  - Tasgau, e.e. araith, traethawd, adroddiad, dadl
  - Sgiliau, e.e. cofnodi, egluro, perswadio, cyflwyno ffeithiau, marcio.

***Lluniwyd y polisi hwn mewn cytundeb ac ymgynghoriad llawn gyda'r staff dysgu a'u hundebau gan warchod cydbwysedd bywyd a gwaith athrawon. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn Rhestr Wirio Effaith Llwyth gwaith.***

**Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y Corff Llywodraethu:**

*Dafydd M Roberts* (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

**Dyddiad cymeradwyo:** *14/07/2014* (gan y Corff Llywodraethu llawn)

**Dyddiad adolygu:** *Gwanwyn 2017*